PN126 - HYSBYSIAD PREIFATRWYDD TÎM PARTNERIAETH RHANBARTHOL - YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORIADAU (STAFF, Y CYHOEDD, PARTNERIAID A RHANDDEILIAID)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymedig at ddiogelu eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio'n gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn.

Maes Gwasanaeth CBST:	Gofal Cymdeithasol a Thai
Maes Gwaith:	Y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol
Manylion Cyswllt:	GwentRegionalPartnershipBoard@torfaen.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Tîm Partneriaeth Rhanbarthol - Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau (Staff, y cyhoedd, Partneriaid a Rhanddeiliaid)

Rheolwr Data:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod;

Swyddog Diogelu Data:
Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Mae'r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol (TPRh) yn cefnogi Bwrdd Partneriaeth Statudol Rhanbarthol Gwent (BPRhG) rhwng iechyd a gofal cymdeithasol (a sefydlwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) i roi polisïau Llywodraeth Cymru ar waith a chyflawni blaenoriaethau rhanbarthol. Mae BPRhG yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd, mewn cydweithrediad â'u partner Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan.

1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Mae'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei darparu i ni'n uniongyrchol gennych chi. Fel rhan o rôl y TPRh o ran rhoi polisïau Llywodraeth Cymru ar waith a chyflawni blaenoriaethau rhanbarthol, bydd adegau pan fydd ymgysylltu ac ymgynghori yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod anghenion a safbwyntiau staff, rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd yn cael eu hystyried. Yn ogystal â deall anghenion a goblygiadau unrhyw benderfyniadau ar drigolion Gwent, bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y TPRh, sy'n cefnogi BPRhG, yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol.

Pan fydd cynrychiolwyr o'r TPRh yn ymgysylltu â'r cyhoedd, staff, partneriaid neu randdeiliaid, efallai y byddwn yn gofyn am adborth i sicrhau bod ein hymgysylltiad neu ymgynghoriad wedi cyflawni'r canlyniad a fwriadwyd neu i ddeall anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Mae'n bosibl y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn am wybodaeth bersonol yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau ymgysylltiad neu ymgynghoriadau ystyrlon.

2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon?

- Holiadur (digidol ac â llaw)
- Arolygon (digidol ac â llaw)
- Llwyfannau deialog
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gwerthusiad/adborth (digidol ac â llaw)
- Hyfforddiant (wyneb yn wyneb neu rithiol)
- Briffiau (wyneb yn wyneb neu rithiol)
- Digwyddiadau/Cynadleddau (wyneb yn wyneb neu rithiol)
- E-bost
- Ffôn:
- Fideos (lle ceir caniatâd)
- Ffotograffau (lle ceir caniatâd)
- Recordiadau (lle ceir caniatâd)

3) Pa wybodaeth ydy'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol yn casglu;

- Enw
- Cyfeiriad E-bost:
- Dyddiad geni (gwaith lleoliad)

- Statws DBS (gwaith lleoliad)
- Cymhwyster
- Rheswm dros ymgysylltu
- Man gweithio (perthnasol i staff a rhanddeiliaid)
- Swydd (perthnasol i staff a rhanddeiliaid)

4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

O dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR), y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(a) Eich caniatâd - mae hyn yn berthnasol i fideos, ffotograffau a recordiadau yn unig, nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu unrhyw ddata arall
(e) Rydyn ni ei angen i gyflawni tasg gyhoeddus.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Iaith Gymraeg**

Nodwch os gwelwch yn dda y gallwn ofyn am ganiatâd i ymgysylltu â'r gwasanaeth neu ar gyfer rhannu gwybodaeth â darparwyr, serch hynny, nid caniatâd yw'r sail gyfreithiol yr ydym yn dibynnu arno i brosesu'ch data personol.

5) Categorïau arbennig o ddata personol:

Rydym yn casglu'r data categori arbennig canlynol:

- data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig
- data personol sy'n datgelu credoau crefyddol neu athronyddol
- data mewn perthynas ag iechyd (anabledd)
- data mewn perthynas â thueddiad rhywiol unigolyn

Rydym yn casglu hyn o dan Erthygl 9 GDPR y DU.

Pan fyddwn yn casglu data troseddol, caiff hwn ei brosesu o fewn y Cyngor o dan Erthygl 10 o GDPR y DU.

6) Pwy sy'n cael gweld eich data?

Bydd eich data'n cael ei rannu yn fewnol gyda'r staff priodol yn unig, lle mae'n angenrheidiol er mwyn iddyn nhw gyflawni'u rolau.

Gall eich data gael ei rannu'n allanol hefyd gyda sefydliadau, i ddarparu gwybodaeth a gwella gwasanaethau, yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau strategol a pholisïau. Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Awdurdodau Lleol Gwent (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Fynwy)
- Llywodraeth Cymru (Efallai y caiff gwybodaeth ystadegol ddienw ei rhannu â Llywodraeth Cymru i bennu llwyddiant prosiect ond ni fydd hyn yn enwi unigolyn)
- Sefydliadau[3]ydd sector
- Darparwyr gofal a gomisiynwyd gan Awdurdodau Lleol Gwent
- Gwasanaethau eiriolaeth
- Bwrdd Iechyd - Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Yr Heddlu;

Wrth rannu eich data gyda sefydliadau allanol byddwn yn rhannu'r wybodaeth nad yw'n eich adnabod yn benodol nac yn eich cysylltu â'r wybodaeth honno, a hynny'n unig.

Ac eithrio lle nodwyd eisoes, nid ydym yn rhoi eich manylion i unrhyw drydydd parti oni fo gofyn i ni wneud hynny dan y gyfraith.

Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo i'r tu allan i'r DU?

Na

7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol mewn grym i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn mynd ar goll, yn cael ei ddinistrio'n anfwriadol, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu. Cyfyngir ar fynediad i'r data hwn yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU.

Bydd data'n cael ei storio'n ddiogel ar:

- Gwmwl diogel
- Gyriannau rhwydwaith diogel
- Copïau papur neu gopïau caled (cânt eu sganio a'u dinistrio'n ddiogel ar ôl eu cadw)

Pan fydd y Cyngor yn cyflogi trydydd parti i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd parti ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

8) Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Cyngor yn cadw eich data personol am gyhyd ag sydd yn angenrheidiol a hynny'n unig, a bydd yn dilyn safonau corfforaethol a'r

Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

- **Hyd at 10 mlynedd**

9) **<u>Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?</u>**

Na

<u>Eich hawliau</u>

Mae gennych chi nifer o Hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Hygludedd data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod canlyniadau methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech chi arfer unrhyw rhai o'r hawliau yma, cysylltwch â'r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ,Llawr 6, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB neu drwy e-bost GwentRegionalPartnershipBoard@torfaen.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH. Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost Wales@ico.org.uk.